

Newid Hinsawdd ac Iechyd yng Nghymru: Barn y Cyhoedd

Dadansoddiad demograffig o ddata



Natasha Judd, Sara Wood, Karen Hughes

Newid Hinsawdd ac Iechyd yng Nghymru: Barn y cyhoedd

Dadansoddiad demograffig o ddata

Natasha Judd, Sara Wood, Karen Hughes

Ebrill 2024

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru a gymerodd ran yn wirfoddol yn yr astudiaeth hon am eu hamser a'u barn werthfawr. Rydym hefyd yn diolch i: Dr Sarah Jones (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Dr Victoria West (Llywodraeth Cymru) a'r Athro Phil Wheeler (Prifysgol Fetropolitan Manceinion) am adolygu'r adroddiad, a Katie Cresswell (Prifysgol Bangor) a Julie Sloan (Iechyd Cyhoeddus Cymru) am brawfddarllen.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg / This report is available in English



Polisi ac Iechyd Rhyngwladol,
Canolfan Gydweithredol WHO ar
Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant,
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus
Cymru,
Tŷ Clwydian,
Parc Technoleg Wrecsam,
Wrecsam LL13 7YP

Uned Gydweithredu Iechyd y
Cyhoedd,
Coleg Meddygaeth ac Iechyd,
Prifysgol Bangor,
Parc Technoleg Wrecsam,
Wrecsam
LL13 7YP

ISBN 978-1-83766-381-1

@ 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Bangor. Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ cyn belled â'i fod yn cael ei wneud mewn modd cywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid datgan cydnabyddiaeth i Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Bangor.

Mae hawlfraint y trefniant, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Bangor.

1. Cyflwyniad

Mae chweched adroddiad y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC) yn nodi bod gweithgareddau dynol wedi achosi newid hinsawdd, yn bennaf drwy allyriadau nwyon tŷ gwydr.¹ Mae newid hinsawdd yn effeithio ar y tywydd a hinsawdd eithafol ar draws y byd, gan arwain at effeithiau andwyol eang a difrod i natur a phobl. Felly, mae newid hinsawdd yn cael ei gydnabod fel un o fygythiadau byd-eang mwyaf yr 21^{ain} ganrif².

Yng Nghymru, rhagwelir y bydd cynnydd yn y tymheredd yn cynyddu amllder a difrifoldeb digwyddiadau tywydd eithafol, gan gynnwys tywydd poeth, llifogydd a sychder³. Canfu asesiad o'r effaith ar iechyd y bydd newid hinsawdd yn effeithio ar bob grŵp poblogaeth yng Nghymru, gyda rhai grwpiau difreintiedig ac agored i niwed, megis y rhai ar incwm isel, plant a phobl ifanc, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd arfordirol, yn profi effeithiau negyddol anghymesur⁴. Mae gwaith i ddeall a lliniaru newid hinsawdd yn ennill momentwm yng Nghymru. Er enghraifft, mae Cynllun Sero Net Cymru yn nodi'r camau y mae angen eu cymryd i gyflawni datgarboneiddio yng Nghymru erbyn 2050⁵. Cyflawnwyd y gyllideb garbon gyntaf, gydag allyriadau nwyon tŷ gwydr yn gostwng i gyfartaledd o 28% yn is na lefelau 1990 rhwng 2016 a 2020⁶.

Er mwyn helpu i greu dulliau effeithiol a derbyniol o ymdrin â'r newid hinsawdd sy'n diogelu iechyd y cyhoedd, mae'n bwysig deall canfyddiadau'r cyhoedd o newid hinsawdd a chytundeb â pholisïau y gellir eu rhoi ar waith yng Nghymru i leihau allyriadau, neu eu gwrthwynebiad i'r polisïau hynny. Yn 2021/22, cynhaliwyd arolwg cyhoeddus cenedlaethol a oedd yn archwilio pryderon am newid hinsawdd, yr effeithiau canfyddedig ar iechyd, a safbwyntiau ar gamau gweithredu i leihau neu gyfyngu ar newid hinsawdd (Blwch 1). Cyhoeddwyd canfyddiadau lefel poblogaeth o'r arolwg yn yr adroddiad *Newid hinsawdd ac iechyd yng Nghymru: Barn y cyhoedd*⁷.

Nod yr ail adroddiad hwn yw datblygu dealltwriaeth bellach o farn y cyhoedd ar newid hinsawdd trwy gyflwyno dadansoddiad demograffig o gwestiynau allweddol o'r arolwg cenedlaethol. Gallai'r canfyddiadau hyn helpu i deilwra ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a llywio'r gwaith o dargedu negeseuon allweddol a chamau gweithredu ar newid hinsawdd yng Nghymru.

Blwch 1. Arolwg cyhoeddus cenedlaethol ar newid hinsawdd yng Nghymru

Rhwng Hydref 2021 a Chwefror 2022, cynhaliwyd arolwg cyhoeddus cynrychioliadol cenedlaethol yng Nghymru. Roedd trigolion 16 oed a throsodd yn gymwys i gymryd rhan. Er mwyn goresgyn amhariad ar gasglu data oherwydd COVID-19, defnyddiwyd tri dull o gasglu data: wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar-lein. Cymerodd cyfanswm o 2,269 o drigolion ran: 947 wyneb yn wyneb, 620 dros y ffôn a 702 ar-lein. Mae rhagor o wybodaeth am ddulliau'r arolwg ar gael yn yr adroddiad *Newid hinsawdd ac iechyd yng Nghymru: Barn y cyhoedd*⁷.



Ynglŷn â'r data

Mae'r canrannau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn defnyddio data wedi'i bwysoli (yn ôl grŵp oedran, rhyw a chwintel amddifadedd [yn seiliedig ar fynegai amddifadedd lluosog Cymru]), i gynrychioli poblogaeth Cymru. Nodwyd gwahaniaethau sylweddol mewn ymatebion rhwng grwpiau demograffig gan ddefnyddio dadansoddiadau aml-amrywedd (modelau llinol cyffredinol: atchweliad logistaidd deuaidd), gan gynnwys grŵp oedran, rhyw, cwintel amddifadedd, lleoliad (gwledig neu drefol) a chymhwyster uchaf (dim cymwysterau, ysgol uwchradd, coleg/chweched dosbarth, addysg uwch/prifysgol, proffesiynol/cysylltiedig â gwaith; wedi'i dalffyrnu mewn graffiau a thablau fel "dim", "uwchradd", "coleg/6ed", "uwch", "proffesiynol"). Defnyddiodd dadansoddiadau aml-amrywedd ddata heb ei bwysoli.

2. Safbwyntiau am newid hinsawdd: pryder

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr, "Pa mor bryderus ydych chi am newid hinsawdd, y cyfeirir ato weithiau fel cynhesu byd-eang?" Yr opsiynau ymateb oedd: pryderus iawn, eithaf pryderus, ddim yn bryderus iawn, ddim yn bryderus o gwbl, Nid wyf yn gwybod beth yw newid hinsawdd, ac Nid wyf yn credu mewn newid hinsawdd.

Dywedodd **82%** o'r cyfranogwyr eu bod yn bryderus (yn bryderus iawn neu'n eithaf pryderus) am newid hinsawdd, sy'n cyfateb i 2.1 miliwn o bobl 16 oed neu hŷn yng Nghymru.

Cyfran y cyfranogwyr yn adrodd eu bod yn bryderus (yn bryderus iawn neu'n eithaf pryderus) am newid hinsawdd. Data wedi'i bwysoli. Ceir data ar gyfer pob categori yn Atodiad Tabl 1.

yn ôl cwntel amddifadedd



yn ôl grŵp oedran (blynyddoedd)




yn ôl rhyw



yn ôl lleoliad



yn ôl addysg (cymhwyster uchaf)



Mewn dadansoddiadau aml-amrywedd (Gweler Atodiad Tabl 1), roedd **menywod** a'r rhai gyda **lefelau addysg uwch** yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn pryderu am newid hinsawdd.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl cwntel amddifadedd, grŵp oedran na lleoliad.

3. Barn am newid hinsawdd: effaith

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr, "Pa un o'r rhain sy'n disgrifio eich barn am effaith newid hinsawdd yng Nghymru?" Yr opsiynau ymateb oedd: ni fydd newid hinsawdd byth yn cael effaith yng Nghymru, dim ond ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol y bydd newid hinsawdd yn cael effaith, nid yw newid hinsawdd yn cael effaith eto, ond bydd yn cael effaith yn fy oes, mae newid hinsawdd eisoes yn cael effaith, a ddim yn gwybod.

Roedd **61%** o'r cyfranogwyr yn meddwl bod newid hinsawdd eisoes yn cael effaith yng Nghymru.

Cyfran y cyfranogwyr oedd yn meddwl bod newid hinsawdd eisoes yn cael effaith yng Nghymru. Data wedi'i bwysoli. Ceir data ar gyfer pob categori yn Nhabl 2 yr Atodiad.

yn ôl cwintel amddifadedd



yn ôl grŵp oedran (blynyddoedd)




yn ôl rhyw



yn ôl lleoliad



yn ôl addysg (cymhwyster uchaf)



Mewn dadansoddiadau aml-amrywedd (gweler Atodiad Tabl 2), roedd **menywod**, unigolion **50-69 oed**, y rhai gyda **lefelau addysg uwch** a'r rhai sy'n byw yn y cwintelau **canol a lleiaf difreintiedig** yn fwy tebygol o adrodd bod newid hinsawdd eisoes yn cael effaith yng Nghymru.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl lleoliad.

4. Effeithiau canfyddedig newid hinsawdd: iechyd


Gofynnwyd i'r cyfranogwyr, "Pa mor gadarnhaol neu negyddol ydych chi'n meddwl y bydd effeithiau newid hinsawdd ar iechyd pobl Cymru?" Yr opsiynau ymateb oedd: negyddol ar y cyfan, yr un mor gadarnhaol a negyddol, cadarnhaol ar y cyfan, a ddim yn gwybod.

Roedd **56%** o'r cyfranogwyr yn meddwl y byddai effaith newid hinsawdd ar iechyd yng Nghymru yn negyddol ar y cyfan.


Cyfran y cyfranogwyr yn adrodd am bob opsiwn. Data wedi'i bwysoli. Gweler Tabl 3 yr Atodiad. Efallai na fydd y canrannau yn adio i 100% oherwydd talgrynnu.

■ Negyddol ar y cyfan ■ Yr un mor gadarnhaol a negyddol ■ Cadarnhaol ar y cyfan ■ Ddim yn gwybod


yn ôl cwntel amddifadedd




yn ôl grŵp oedran (blynyddoedd)




yn ôl rhyw



yn ôl lleoliad



yn ôl addysg (cymhwyster uchaf)



Mewn dadansoddiadau aml-amrywedd (gweler Tabl 3 yr Atodiad), y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd **lleiaf difreintiedig, grwpiau oedran iau**, ac unigolion gyda **chymwysterau addysg uwch** oedd yn fwy tebygol o ddweud y bydd effeithiau newid hinsawdd yn negyddol ar y cyfan.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl lleoliad na rhyw.

5. Effeithiau canfyddedig newid hinsawdd: y prif bryder

Gofynnwyd i gyfranogwyr sut yr oeddent yn meddwl y gallai newid hinsawdd effeithio ar ystod o faterion iechyd [gweler Nodyn 1 am y rhestr o faterion]. Yna gofynnwyd iddynt, "Wrth feddwl am yr effeithiau posibl hyn o newid hinsawdd, **pa un fydddech chi'n poeni fwyaf amdano?**"

Y prif bryder a grybwyllwyd amlaf oedd cost gwresogi cartref (**18%**), ac yna cost bwyd (**14%**), mynediad at wasanaethau iechyd a gofal (**14%**), lledaeniad clefydau heintus (**12%**), lefelau o afiechyd meddwl (**11%**) a lefelau salwch corfforol (**11%**). Mae'r cyfrannau sy'n dewis y pryderon hyn o fewn pob grŵp demograffig i'w gweld yn Nhabl 4 yr Atodiad. Mae'r tabl isod yn dangos y pum prif bryder ar gyfer pob grŵp demograffig.

Y pum prif bryder ar gyfer pob grŵp demograffig.

	Prif bryder	2 ^{il} bryder	3 ^{ydd} pryder	4 ^{ydd} pryder	5 ^{ed} pryder
Yn ôl cwintel amddifadedd					
1 (Mwyaf)	Costau gwresogi	Lledaeniad clefyd	Costau bwyd	Gwasanaethau iechyd	Afiechyd meddwl
2	Costau gwresogi	Costau bwyd	Afiechyd meddwl	Lledaeniad clefyd	Gwasanaethau iechyd
3	Gwasanaethau iechyd	Costau gwresogi	Costau bwyd	Salwch corfforol	Afiechyd meddwl
4	Gwasanaethau iechyd	Costau gwresogi	Costau bwyd	Lledaeniad clefyd	Afiechyd meddwl
5 (Lleiaf)	Costau gwresogi	Costau bwyd	Lledaeniad clefyd	Gwasanaethau iechyd	Salwch corfforol
Yn ôl grŵp oedran (blynyddoedd)					
16-29	Costau gwresogi	Costau bwyd	Afiechyd meddwl	Lledaeniad clefyd	Salwch corfforol
30-49	Costau gwresogi	Costau bwyd	Gwasanaethau iechyd	Salwch corfforol	Lledaeniad clefyd
50-69	Costau gwresogi	Gwasanaethau iechyd	Lledaeniad clefyd	Costau bwyd	Salwch corfforol
70+	Gwasanaethau iechyd	Costau gwresogi	Lledaeniad clefyd	Afiechyd meddwl	Costau bwyd
Yn ôl rhyw					
Gwrywaidd	Costau gwresogi	Costau bwyd	Gwasanaethau iechyd	Lledaeniad clefyd	Afiechyd meddwl
Benywaidd	Gwasanaethau iechyd	Costau gwresogi	Lledaeniad clefyd	Costau bwyd	Afiechyd meddwl

Nodyn 1: Rhestr o faterion: lefelau salwch corfforol; lledaeniad clefydau heintus; costau yswiriant; cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored; mewnfudo i'r DU; cost gwresogi cartref; cyflenwad dŵr cartref; llygredd aer; cost bwyd; lefelau afiechyd meddwl; canserau'r croen; ymdeimlad o gymuned yn eich ardal leol; mynediad at wasanaethau iechyd a gofal; twristiaeth yng Nghymru; a chost oeri cartref.

	Prif bryder	2^{il} bryder	3^{ydd} pryder	4^{ydd} pryder	5^{ed} pryder
Yn ôl lleoliad					
Trefol	Costau gwresogi	Costau bwyd	Gwasanaethau iechyd	Lledaeniad clefyd	Afiechyd meddwl
Gwledig	Costau gwresogi	Gwasanaethau iechyd	Costau bwyd	Afiechyd meddwl	Lledaeniad clefyd

Yn ôl addysg (cymhwyster uchaf)

Dim	Costau gwresogi	Costau bwyd	Lledaeniad clefyd	Afiechyd meddwl	Gwasanaethau iechyd
Uwchradd	Costau gwresogi	Gwasanaethau iechyd	Costau bwyd	Lledaeniad clefyd	Afiechyd meddwl
Coleg/6ed	Gwasanaethau iechyd	Costau gwresogi	Afiechyd meddwl	Lledaeniad clefyd	Costau bwyd
Uwch	Costau gwresogi	Costau bwyd	Gwasanaethau iechyd	Salwch corfforol	Lledaeniad clefyd
Proffesiynol	Costau gwresogi	Salwch corfforol	Costau bwyd	Gwasanaethau iechyd	Lledaeniad clefyd


6. Profiad o afiechyd

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr, "Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a ydych chi wedi profi afiechyd a achoswyd gan dywydd eithafol?" Yr opsiynau ymateb oedd: do neu naddo.


Roedd **20%** o'r cyfranogwyr wedi profi afiechyd a achoswyd gan dywydd eithafol, sy'n cyfateb i 516,471 o bobl 16 oed a throsodd yng Nghymru.

Cyfran y cyfranogwyr a oedd wedi profi afiechyd a achoswyd gan dywydd eithafol yn y pum mlynedd diwethaf. Data wedi'i bwysoli. Gweler Tabl 5 yr Atodiad.

yn ôl cwintel amddifadedd



yn ôl grŵp oedran (blynyddoedd)




yn ôl rhyw



yn ôl lleoliad



yn ôl addysg (cymhwyster uchaf)



Mewn dadansoddiadau aml-amrywedd (gweler Tabl 5 yr Atodiad), y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd **mwyaf difreintiedig** a'r rhai rhwng **16-29 oed** oedd yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi profi afiechyd a achoswyd gan dywydd eithafol.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw, addysg na lleoliad.

7. Camau i leihau neu gyfyngu ar newid hinsawdd: dylanwad


Gofynnwyd i'r cyfranogwyr, "Faint o ddylanwad, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y gallwch chi'n bersonol ei gael ar gyfyngu ar y newid yn yr hinsawdd?" Yr opsiynau ymateb oedd: dylanwad mawr, peth dylanwad, dim dylanwad, a ddim yn gwybod.

Roedd **23%** o'r cyfranogwyr yn meddwl na allent gael unrhyw ddylanwad ar gyfyngu ar newid hinsawdd, sy'n cyfateb i 593,941 o bobl 16 oed neu hŷn yng Nghymru.


Cyfran y cyfranogwyr yn nodi pob ymateb. Data wedi'i bwysoli. Gweler Tabl 6 yr Atodiad. Efallai na fydd y canrannau yn adio i 100% oherwydd talgrynnu.

■ Dim dylanwad ■ Peth dylanwad ■ Dylanwad mawr ■ Ddim yn gwybod


yn ôl cwintel amddifadedd




yn ôl grŵp oedran (blynyddoedd)




yn ôl rhyw



yn ôl lleoliad



yn ôl addysg (cymhwyster uchaf)




Mewn dadansoddiadau aml-amrywedd (gweler Tabl 6 yr Atodiad), **gwrywod**, y rhai oed **70+ oed** a'r rhai gyda **dim cymwysterau** oedd yn fwy tebygol o ddweud na allent gael unrhyw ddylanwad ar gyfyngu ar newid hinsawdd.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl cwintel amddifadedd na lleoliad.

8. Camau i leihau neu gyfyngu ar newid hinsawdd: polisïau

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno ag ystod o bolisïau i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Roedd canran y bobl oedd yn **cytuno'n gryf** gyda pholisi yn amrywio o **63%** am fynediad rhatach a mwy o fynediad at ynni adnewyddadwy; gwella trafndiaeth gyhoeddus; a chyfreithiau i leihau'r defnydd o becynnau plastig, i **10%** ar gyfer cynyddu prisiau tanwydd ar gyfer ceir.

Cyfran y cyfranogwyr sy'n cytuno'n gryf gyda phob polisi. Data wedi'i bwysoli. Ceir data ar gyfer pob polisi a chategori yn Nhabl 7 yr Atodiad.



Yn ôl cwntel amddifadedd

Cwntel	Mynediad rhatach / mwy o fynediad i ynni adnewyddadwy	Gwella trafndiaeth gyhoeddus	Deddfau i leihau'r defnydd o becynnau plastig	Treth cynyddol i gwmnïau sy'n cyfrannu at gynhesu byd-eang	Mwy o lwybrau beicio / cerdded diogel	Prisiau cymorthdledig a gwell cyfleusterau ar gyfer ceir trydan	Gostwng trethi i gwmnïau sy'n gwarchod yr amgylchedd	Mynediad rhatach / mwy o fynediad i ynni niwclear	Cynyddu prisiau tanwydd ar gyfer ceir
1 (Mwyaf)	55%	59%	52%	47%	48%	37%	41%	31%	9%
2	68%	64%	60%	54%	45%	42%	36%	34%	13%
3	62%	60%	64%	61%	50%	44%	39%	33%	10%
4	67%	66%	70%	64%	53%	49%	43%	37%	10%
5 (Lleiaf)	61%	64%	66%	60%	49%	48%	44%	34%	7%

Yn ôl grŵp oedran (blynyddoedd)

16-29	63%	68%	61%	55%	52%	46%	45%	32%	9%
30-49	61%	59%	60%	55%	48%	44%	36%	33%	9%
50-69	67%	65%	65%	61%	51%	46%	43%	35%	9%
70+	57%	60%	65%	58%	44%	39%	38%	34%	12%

Yn ôl rhyw

Gwrywaidd	64%	62%	64%	58%	46%	46%	41%	37%	11%
Benywaidd	61%	63%	61%	56%	52%	42%	40%	30%	9%

Yn ôl lleoliad

Trefol	63%	63%	61%	58%	49%	43%	42%	33%	10%
Gwledig	63%	62%	66%	57%	49%	46%	38%	34%	9%

Yn ôl addysg (cymhwyster uchaf)

Dim	46%	58%	53%	54%	41%	31%	41%	27%	7%
Uwchradd	63%	57%	58%	53%	46%	41%	39%	41%	10%
Coleg/6ed	58%	60%	63%	57%	48%	42%	37%	30%	9%
Uwch	67%	70%	66%	61%	53%	48%	42%	30%	10%
Proffesiynol	73%	61%	68%	58%	49%	51%	44%	41%	11%

9. Atodiad

Tabl 1: Pa mor bryderus ydych chi am newid hinsawdd, y cyfeirir ato weithiau fel cynhesu byd-eang? Cyfran wedi'i phwysoli yn darparu pob ymateb. Efallai na fydd y canrannau yn adio i 100% oherwydd talgrynnu. Defnyddiodd dadansoddiadau aml-amrywedd ddata heb ei bwysoli.

Cyfran ym mhob categori							Dadansoddiad aml-amrywedd. Ods o fod yn bryderus iawn neu'n weddol bryderus o gymharu â'r holl ymatebion eraill	
	Pryderus iawn	Eithaf pryderus	Ddim yn bryderus iawn	Ddim yn bryderus o gwbl	Dydw i ddim yn gwybod beth yw newid hinsawdd	Dydw i ddim yn credu mewn newid hinsawdd	Cymhareb ods wedi'i haddasu (cyfwng hyder 95%) Ystyr cyf yw categori cyfeirio	gwerth-P
Cyfanswm	44.2%	38.1%	11.0%	5.1%	0.6%	1.0%		
Rhyw								<0.001
Gwrywaidd	43.5%	33.6%	14.2%	7.2%	0.3%	1.2%	<i>Cyf</i>	
Benywaidd	44.9%	42.4%	7.9%	3.0%	0.9%	0.9%	1.824 (1.446-2.301)	<0.001
Grŵp oedran (blynyddoedd)								0.160
16 i 29	42.6%	35.3%	14.8%	6.3%	0.2%	0.8%	<i>Cyf</i>	
30 i 49	38.7%	45.8%	9.4%	4.5%	0.6%	0.9%	1.416 (0.949-2.113)	0.416
50 i 69	46.5%	35.9%	10.6%	5.4%	0.4%	1.1%	1.346 (0.919-1.970)	0.127
70 a mwy	50.5%	33.4%	9.7%	4.3%	0.9%	1.2%	1.595 (1.058-2.405)	0.026
Cwintel amddifadedd								0.069
(mwyaf difreintiedig) 1	34.3%	39.0%	12.5%	11.6%	1.4%	1.2%	<i>Cyf</i>	
2	46.5%	36.5%	11.3%	4.1%	0.2%	1.4%	1.426 (1.010-2.013)	0.043
3	44.6%	38.4%	10.2%	4.7%	0.4%	1.7%	1.365 (0.962-1.938)	0.081
4	45.8%	41.3%	9.4%	2.1%	0.9%	0.4%	1.567 (1.075-2.284)	0.020
(lleiaf difreintiedig) 5	48.8%	35.2%	11.9%	3.5%	0.2%	0.4%	1.604 (1.114-2.310)	0.011
Lleoliad								0.201
Trefol	42.9%	37.9%	12.0%	5.5%	0.6%	1.1%	<i>Cyf</i>	
Gwledig	47.2%	38.6%	8.7%	4.1%	0.5%	0.9%	1.192 (0.911-1.561)	0.201
Addysg a Chymwysterau								<0.001
Dim	31.3%	34.9%	18.1%	10.8%	2.4%	2.4%	<i>Cyf</i>	
Uwchradd	37.0%	40.1%	12.7%	8.5%	0.4%	1.4%	1.508 (1.018-2.234)	0.040
Coleg neu 6 ^{ed} dosbarth	39.9%	40.5%	14.5%	3.3%	1.2%	0.6%	1.737 (1.146-2.632)	0.009
Addysg uwch	54.4%	34.8%	6.8%	3.2%	0.1%	0.7%	3.073 (2.023-4.669)	<0.001
Cymwysterau proffesiynol	43.3%	43.8%	8.4%	3.4%	0.0%	1.1%	2.566 (1.507-4.370)	<0.001

Tabl 2: Pa un o'r rhain sy'n disgrifio eich barn am effaith newid hinsawdd yng Nghymru? Cyfran wedi'i phwysoli yn darparu pob ymateb. Nid yw data yn cynnwys y rhai sy'n dweud nad ydynt yn credu mewn newid hinsawdd. Efallai na fydd y canrannau yn adio i 100% oherwydd talgrynnu. Defnyddiodd dadansoddiadau aml-amrywedd ddata heb ei bwysoli.

Cyfran ym mhob categori						Dadansoddiad aml-amrywedd. Ods o adrodd bod newid hinsawdd "eisoes yn cael effaith" o gymharu â'r holl ymatebion eraill	
	Eisoes yn cael effaith	Ddim yn cael effaith eto, ond bydd yn gwneud yn ystod fy oes	Dim ond ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol y bydd yn cael effaith	Ni fydd byth yn cael effaith	Dydw i ddim yn gwybod	Cymhareb ods wedi'i haddasu (cyfwng hyder 95%) Ystyr cyf yw categori cyfeirio	gwerth-P
Cyfanswm	60.5%	13.1%	20.9%	2.5%	2.9%		
Rhywedd							0.026
Gwrywaidd	56.3%	13.4%	23.9%	3.4%	3.0%	Cyf	
Benywaidd	64.6%	12.9%	18.0%	1.8%	2.7%	1.224 (1.024-1.462)	0.026
Grŵp oedran (blynyddoedd)							<0.001
16 i 29	59.5%	17.3%	19.0%	2.3%	1.9%	1.277 (0.929-1.754)	0.132
30 i 49	57.1%	18.1%	19.8%	1.6%	3.4%	Cyf	
50 i 69	66.3%	8.5%	18.9%	3.3%	3.0%	1.555 (1.238-1.954)	<0.001
70 a mwy	57.4%	8.6%	28.2%	2.9%	2.9%	1.096 (0.854-1.407)	0.471
Cwintel amddifadedd							0.004
(mwyaf difreintiedig) 1	52.6%	13.6%	25.1%	4.5%	4.1%	Cyf	
2	58.6%	15.4%	22.5%	1.4%	2.1%	1.092 (0.829-1.438)	0.531
3	67.6%	10.6%	16.2%	3.5%	2.2%	1.447 (1.088-1.925)	0.011
4	58.8%	13.4%	23.7%	1.3%	2.8%	0.918 (0.688-1.225)	0.562
(lleiaf difreintiedig) 5	64.2%	12.8%	17.7%	2.2%	3.1%	1.372 (1.031-1.826)	0.030
Lleoliad							0.393
Trefol	59.2%	13.6%	21.3%	3.0%	2.9%	Cyf	
Gwledig	63.8%	12.0%	20.1%	1.5%	2.6%	1.092 (0.893-1.334)	0.393
Addysg a Chymwysterau							0.001
Dim	45.1%	11.7%	29.6%	7.4%	6.2%	Cyf	
Uwchradd	52.1%	12.3%	27.3%	3.8%	4.5%	1.092 (0.776-1.537)	0.613
Coleg neu 6 ^{ed} dosbarth	59.4%	13.6%	23.9%	0.8%	2.4%	1.415 (0.991-2.019)	0.056
Addysg uwch	68.4%	13.5%	14.6%	1.8%	1.7%	2.087 (1.477-2.950)	<0.001
Cymwysterau proffesiynol	67.6%	13.6%	14.2%	2.8%	1.7%	2.302 (1.502-3.526)	<0.001

Tabl 3: Pa mor gadarnhaol neu negyddol ydych chi'n meddwl y bydd effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd pobl Cymru? Cyfran wedi'i phwysoli yn darparu pob ymateb. Nid yw data yn cynnwys y rhai sy'n dweud nad ydynt yn credu mewn newid hinsawdd. Efallai na fydd y canrannau yn adio i 100% oherwydd talgrynnu. Defnyddiodd dadansoddiadau aml-amrywedd ddata heb ei bwysoli.

Cyfran ym mhob categori					Dadansoddiad aml-amrywedd. Ods o adrodd "Negatif ar y cyfan" o gymharu â'r holl ymatebion eraill	
	Negatif ar y cyfan	Yr un mor gadarnhaol a negyddol	Cadarnhaol ar y cyfan	Dydw i ddim yn gwybod	Cymhareb ods wedi'i haddasu (cyfwng hyder 95%) Ystyr cyf yw categori cyfeirio	gwerth-P
Cyfanswm	55.8%	29.1%	8.0%	7.1%		
Rhywedd						0.065
Gwrywaidd	53.5%	31.1%	8.5%	6.9%	<i>Cyf</i>	
Benywaidd	58.0%	27.1%	7.5%	7.4%	1.177 (0.990-1.400)	0.065
Grŵp oedran (blynyddoedd)						<0.001
16 i 29	62.7%	26.2%	5.1%	6.1%	<i>Cyf</i>	
30 i 49	60.1%	27.9%	5.9%	6.1%	0.888 (0.647-1.219)	0.464
50 i 69	53.1%	31.2%	8.4%	7.3%	0.681 (0.501-0.926)	0.014
70 a mwy	45.9%	30.9%	13.6%	9.6%	0.555 (0.401-0.768)	<0.001
Cwintel amddifadedd						0.016
(mwyaf difreintiedig) 1	50.7%	31.6%	6.9%	10.8%	<i>Cyf</i>	
2	52.0%	33.3%	9.4%	5.3%	0.955 (0.727-1.253)	0.737
3	58.5%	28.1%	7.3%	6.0%	1.116 (0.846-1.473)	0.437
4	54.7%	30.8%	8.6%	5.8%	0.989 (0.743-1.315)	0.938
(lleiaf difreintiedig) 5	62.5%	21.9%	7.5%	8.2%	1.460 (1.103-1.932)	0.008
Lleoliad						0.387
Trefol	55.2%	29.2%	8.1%	7.5%	<i>Cyf</i>	
Gwledig	57.1%	28.7%	7.8%	6.4%	1.090 (0.897-1.324)	0.387
Addysg a Chymwysterau						<0.001
Dim	40.1%	31.5%	13.0%	15.4%	<i>Cyf</i>	
Uwchradd	49.4%	33.3%	8.4%	8.9%	1.067 (0.757-1.504)	0.710
Coleg neu 6 ^{ed} dosbarth	52.5%	34.3%	7.5%	5.7%	1.129 (0.792-1.610)	0.502
Addysg uwch	66.1%	22.0%	6.1%	5.8%	1.903 (1.351-2.682)	<0.001
Cymwysterau proffesiynol	53.1%	30.9%	11.4%	4.6%	1.370 (0.910-2.062)	0.131

Tabl 4: Pa un o'r effeithiau posibl newid hinsawdd fyddech chi'n pryderu fwyaf amdani?" Cyfran wedi'i phwysoli yn darparu pob ymateb (y 6 prif bryder cyffredinol yn unig). Nid yw data yn cynnwys y rhai sy'n dweud nad ydynt yn credu mewn newid hinsawdd. Efallai na fydd y canrannau yn adio i 100% oherwydd talgrynnu.

Cyfran ym mhob categori						
	Costau gwresogi cartref	Cost bwyd	Mynediad i wasanaethau iechyd a gofal	Lledaeniad o glefydau heintus	Lefelau o afiechyd meddwl	Lefelau o salwch corfforol
Cyfanswm	17.6%	14.2%	13.6%	11.8%	10.9%	10.6%
Rhywedd						
Gwrywaidd	19.5%	16.1%	10.6%	10.5%	9.5%	9.0%
Benywaidd	15.8%	12.4%	16.4%	13.1%	12.2%	12.1%
Grŵp oedran (blynyddoedd)						
16 i 29	17.9%	17.7%	8.8%	11.2%	16.4%	9.7%
30 i 49	20.3%	15.5%	12.2%	10.0%	8.6%	11.9%
50 i 69	17.8%	13.5%	14.2%	13.8%	9.3%	10.7%
70 a mwy	12.9%	9.6%	20.1%	12.2%	10.8%	9.4%
Cwintel amddifadedd						
(mwyaf difreintiedig) 1	18.4%	12.2%	11.9%	13.6%	11.9%	10.5%
2	18.8%	15.8%	10.6%	12.2%	13.1%	9.6%
3	16.4%	15.3%	16.6%	9.9%	10.8%	12.3%
4	15.5%	13.1%	16.3%	11.6%	11.4%	9.7%
(lleiaf difreintiedig) 5	19.2%	14.5%	11.7%	11.9%	7.3%	10.8%
Lleoliad						
Trefol	18.2%	14.5%	13.2%	12.5%	11.1%	11.0%
Gwledig	16.2%	13.4%	14.4%	10.2%	10.5%	9.5%
Addysg (cymhwysr uchaf)						
Dim	18.9%	15.2%	10.4%	12.8%	11.0%	7.9%
Uwchradd	19.5%	14.0%	14.3%	12.5%	9.5%	8.4%
Coleg neu 6 ^{ed} dosbarth	16.1%	11.9%	16.3%	12.1%	13.3%	10.7%
Addysg uwch	16.8%	16.0%	12.4%	11.2%	11.0%	11.7%
Cymwysterau proffesiynol	18.8%	13.1%	11.9%	10.2%	8.5%	14.2%

Tabl 5: Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a ydych chi wedi profi afiechyd a achoswyd gan dywydd eithafol? Cyfran wedi'i phwysoli yn darparu pob ymateb. Efallai na fydd y canrannau yn adio i 100% oherwydd talgrynnu. Defnyddiodd dadansoddiadau aml-amrywedd ddata heb ei bwysoli.

Cyfran ym mhob categori			Dadansoddiad aml-amrywedd.			
			Ods o adrodd "do" o gymharu â "naddo"			
			Cymhareb ods wedi'i haddasu (cyfwng hyder 95%) Ystyr cyf yw categori cyfeirio	gwerth-P		
			Do	Naddo		
Cyfanswm			19.6%	80.4%		
Rhywedd					0.114	
	Gwrywaidd	18.7%	81.3%	Cyf		
	Benywaidd	20.4%	79.6%	1.192 (0.959-1.483)	0.114	
Grŵp oedran (blynyddoedd)					0.019	
	16 i 29	23.4%	76.6%	Cyf		
	30 i 49	20.2%	79.8%	0.777(0.543-1.113)	0.170	
	50 i 69	16.6%	83.4%	0.621 (0.435-0.887)	0.009	
	70+	19.4%	80.6%	0.892 (0.615-1.294)	0.547	
Cwintel amddifadedd					0.021	
	(mwyaf difreintiedig) 1	22.7%	77.3%	Cyf		
	2	22.3%	77.7%	1.062 (0.771-1.463)	0.713	
	3	17.4%	82.6%	0.755 (0.535-1.064)	0.108	
	4	19.5%	80.5%	0.829 (0.585-1.176)	0.294	
	(lleiaf difreintiedig) 5	16.3%	83.7%	0.629 (0.441-0.898)	0.011	
Lleoliad					0.926	
	Trefol	19.8%	80.2%	Cyf		
	Gwledig	19.0%	81.0%	1.012 (0.793-1.291)	0.926	
Addysg (cymhwysr uchaf)					0.081	
	Dim	12.0%	88.0%	Cyf		
	Uwchradd	18.6%	81.4%	1.658 (1.030-2.669)	0.037	
	Coleg neu 6 ^{ed} dosbarth	22.6%	77.4%	1.962 (1.207-3.188)	0.007	
	Addysg uwch	20.2%	79.8%	1.528 (0.947-2.467)	0.083	
Cymwysterau proffesiynol			18.6%	81.4%	1.613 (0.924-2.814)	0.092

Tabl 6: Faint o ddylanwad, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y gallwch chi'n bersonol ei gael ar gyfyngu ar newid hinsawdd? Cyfran wedi'i phwysoli yn darparu pob ymateb. Nid yw data yn cynnwys y rhai sy'n dweud nad ydynt yn credu mewn newid hinsawdd. Efallai na fydd y canrannau yn adio i 100% oherwydd talgrynnu. Defnyddiodd dadansoddiadau aml-amrywedd ddata heb ei bwysoli.

Cyfran ym mhob categori					Dadansoddiad aml-amrywedd. Ods o adrodd "dim dylanwad" o gymharu â'r holl ymatebion eraill	
	Dim dylanwad	Peth dylanwad	Dylanwad mawr	Dydw i ddim yn gwybod	Cymhareb ods wedi'i haddasu (cyfwng hyder 95%) Ystyr cyf yw categori cyfeirio	gwerth-P
Cyfanswm	22.7%	65.1%	9.5%	2.7%		
Rhywedd						<0.001
Gwrywaidd	28.0%	61.7%	8.4%	1.9%	<i>Cyf</i>	
Benywaidd	17.7%	68.4%	10.5%	3.4%	0.658 (0.534-0.811)	<0.001
Grŵp oedran (blynyddoedd)						0.002
16 i 29	25.1%	59.8%	13.3%	1.9%	0.779 (0.532-1.141)	0.199
30 i 49	16.2%	71.7%	9.5%	2.6%	0.553 (0.408-0.751)	<0.001
50 i 69	22.5%	64.9%	9.4%	3.1%	0.775 (0.601-0.998)	0.048
70 a mwy	30.4%	61.2%	5.3%	3.1%	<i>Cyf</i>	
Cwintel amddifadedd						0.222
(mwyaf difreintiedig) 1	28.3%	57.3%	9.1%	5.3%	<i>Cyf</i>	
2	23.0%	63.1%	11.5%	2.3%	0.889 (0.645-1.225)	0.472
3	25.7%	63.9%	8.4%	1.9%	0.989 (0.715-1.369)	0.946
4	18.1%	69.7%	10.1%	2.2%	0.756 (0.534-1.070)	0.114
(lleiaf difreintiedig) 5	19.1%	71.0%	8.2%	1.8%	0.734 (0.523-1.028)	0.072
Lleoliad						0.377
Trefol	23.6%	65.2%	8.5%	2.7%	<i>Cyf</i>	
Gwledig	20.7%	65.1%	11.7%	2.4%	0.898 (0.708-1.140)	0.377
Addysg (cymhwysr uchaf)						<0.001
Dim	46.0%	37.3%	6.8%	9.9%	<i>Cyf</i>	
Uwchradd	28.8%	61.8%	6.4%	3.0%	0.598 (0.418-0.856)	0.005
Coleg neu 6 ^{ed} dosbarth	21.9%	66.4%	9.5%	2.2%	0.495 (0.338-0.725)	<0.001
Addysg uwch	14.6%	71.2%	12.6%	1.6%	0.318 (0.218-0.463)	<0.001
Cymwysterau proffesiynol	20.9%	71.2%	6.8%	1.1%	0.400 (0.252-0.635)	<0.001

Tabl 7: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r opsiynau polisi canlynol? Cyfran wedi'i phwysoli yn darparu pob ymateb. Efallai na fydd y canrannau yn adio i 100% oherwydd talgrynnu.

	Mynediad rhatach / mwy o fynediad i ynni adnewyddadwy					Gwella trafndiaeth gyhoeddus				
	Cyfran ym mhob categori					Cyfran ym mhob categori				
	Anghyt uno'n gryf	Tueddu i anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i gytuno	Cytuno'n gryf	Anghytuno'n gryf	Tueddu i anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i gytuno	Cytuno'n gryf
Cyfanswm	0.9%	1.8%	8.2%	26.5%	62.6%	1.0%	2.0%	8.6%	25.9%	62.6%
Rhywedd										
Gwrywaidd	0.9%	2.3%	8.4%	24.6%	63.8%	1.3%	2.8%	8.4%	25.1%	62.4%
Benywaidd	1.0%	1.2%	8.1%	28.3%	61.4%	0.7%	1.1%	8.7%	26.7%	62.8%
Grŵp oedran (blynyddoedd)										
16 i 29	1.5%	3.1%	5.4%	27.3%	62.7%	0.8%	1.3%	4.8%	25.5%	67.6%
30 i 49	0.5%	1.4%	9.9%	27.2%	61.1%	1.1%	2.3%	9.4%	28.5%	58.6%
50 i 69	1.0%	1.6%	6.2%	24.2%	67.0%	0.8%	2.4%	8.5%	23.8%	64.5%
70 a mwy	1.2%	1.2%	12.1%	28.4%	57.2%	1.2%	1.4%	11.8%	25.8%	59.7%
Cwintel amddifadedd										
(mwyaf difreintiedig) 1	2.6%	3.8%	10.4%	28.0%	55.2%	2.4%	4.0%	9.7%	25.1%	58.9%
2	1.8%	1.1%	5.5%	23.9%	67.7%	0.9%	1.8%	10.0%	23.2%	64.1%
3	0.2%	0.8%	9.6%	27.6%	61.8%	0.2%	1.5%	9.1%	29.4%	59.8%
4	0.2%	0.4%	5.4%	27.4%	66.6%	0.9%	1.3%	6.9%	25.1%	66.0%
(lleiaf difreintiedig) 5	0.2%	2.6%	10.4%	25.6%	61.2%	0.4%	1.3%	7.3%	26.8%	64.2%
Lleoliad										
Trefol	1.1%	2.1%	8.8%	25.4%	62.5%	1.2%	2.0%	8.5%	25.3%	63.0%
Gwledig	0.5%	0.9%	6.9%	29.1%	62.6%	0.5%	1.8%	8.7%	27.5%	61.5%
Addysg (cymhwysr uchaf)										
Dim	1.2%	2.4%	18.6%	32.3%	45.5%	1.2%	4.2%	13.8%	23.4%	57.5%
Uwchradd	1.6%	1.8%	9.0%	25.0%	62.7%	1.1%	2.8%	11.4%	27.8%	56.9%
Coleg neu 6 ^{ed} dosbarth	0.4%	2.8%	8.1%	30.6%	58.2%	0.6%	1.2%	8.8%	29.7%	59.7%
Addysg uwch	0.9%	1.2%	6.3%	25.2%	66.5%	1.2%	1.6%	5.2%	22.5%	69.5%
Cymwysterau proffesiynol	1.1%	0.6%	5.1%	20.3%	72.9%	0.6%	1.7%	9.0%	27.7%	61.0%

Tabl 7 parhad: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r opsiynau polisi canlynol? Cyfran wedi'i phwysoli yn darparu pob ymateb. Efallai na fydd y canrannau yn adio i 100% oherwydd talgrynnu.

	Deddfau i leihau'r defnydd o becynnau plastig					Treth cynyddol i gwmnïau sy'n cyfrannu at gynhesu byd-eang				
	Cyfran ym mhob categori					Cyfran ym mhob categori				
	Anghytu no'n gryf	Tueddu i anghytu no	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i gytuno	Cytuno 'n gryf	Anghytu no'n gryf	Tueddu i anghytu no	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i gytuno	Cytuno 'n gryf
Cyfanswm Rhywedd	1.0%	2.0%	6.6%	27.7%	62.6%	2.5%	4.3%	9.3%	26.7%	57.2%
Gwrywaidd	1.3%	2.5%	6.1%	26.2%	63.9%	3.0%	5.4%	8.4%	25.0%	58.2%
Benywaidd	0.8%	1.4%	7.2%	29.2%	61.4%	2.0%	3.1%	10.2%	28.3%	56.3%
Grŵp oedran (blynyddoedd)										
16 i 29	0.8%	1.3%	6.3%	31.3%	60.5%	3.3%	6.9%	11.0%	23.5%	55.2%
30 i 49	0.9%	2.5%	7.6%	28.6%	60.4%	3.1%	3.4%	8.3%	30.4%	54.7%
50 i 69	1.4%	2.3%	6.2%	25.3%	64.8%	2.1%	3.5%	9.8%	23.9%	60.6%
70 a mwy	0.7%	1.7%	6.2%	26.8%	64.7%	1.4%	3.8%	8.3%	28.8%	57.7%
Cwintel amddifadedd (mwyaf difreintiedig)										
1	1.9%	2.1%	8.5%	35.1%	52.4%	2.8%	4.5%	13.3%	32.5%	46.9%
2	1.6%	1.4%	7.5%	29.5%	60.0%	5.0%	6.3%	8.4%	26.3%	54.0%
3	0.8%	1.5%	7.4%	26.1%	64.1%	1.7%	4.5%	8.3%	24.5%	61.1%
4	0.4%	2.1%	3.2%	24.6%	69.6%	0.6%	2.4%	7.9%	25.3%	63.7%
(lleiaf difreintiedig) 5	0.4%	2.6%	6.8%	24.0%	66.1%	2.2%	3.7%	9.0%	25.6%	59.5%
Lleoliad										
Trefol	1.1%	2.1%	7.5%	28.2%	61.1%	2.7%	4.0%	9.3%	26.5%	57.5%
Gwledig	0.9%	1.8%	4.5%	26.6%	66.2%	2.0%	5.0%	9.4%	27.1%	56.6%
Addysg (cymhwysr uchaf)										
Dim	0.6%	1.2%	13.2%	31.7%	53.3%	2.4%	6.0%	15.0%	22.8%	53.9%
Uwchradd	1.4%	2.6%	9.7%	28.5%	57.8%	2.1%	4.9%	11.5%	28.6%	52.9%
Coleg neu 6 ^{ed} dosbarth	1.0%	2.4%	6.1%	27.6%	62.9%	1.6%	3.9%	8.3%	29.5%	56.8%
Addysg uwch	1.1%	1.8%	4.0%	27.1%	66.0%	3.0%	3.5%	7.4%	25.1%	60.9%
Cymwysterau proffesiynol	0.6%	0.6%	5.1%	25.4%	68.4%	3.9%	5.1%	9.6%	23.6%	57.9%

Tabl 7 parhad: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r opsiynau polisi canlynol? Cyfran wedi'i phwysoli yn darparu pob ymateb. Efallai na fydd y canrannau yn adio i 100% oherwydd talgrynnu.

	Mwy o lwybrau beicio / cerdded diogel					Prisiau cymorthdaledig a gwell cyfleusterau ar gyfer ceir trydan				
	Cyfran ym mhob categori					Cyfran ym mhob categori				
	Anghytun o'n gryf	Tueddu i anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i gytuno	Cytuno'n gryf	Anghytun no'n gryf	Tueddu i anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i gytuno	Cytuno'n gryf
Cyfanswm	4.0%	3.3%	11.3%	32.5%	48.8%	5.3%	4.3%	15.1%	31.2%	44.1%
Rhywedd										
Gwrywaidd	6.4%	4.3%	11.8%	32.0%	45.6%	5.7%	5.1%	13.4%	29.8%	46.0%
Benywaidd	1.6%	2.4%	10.9%	33.0%	52.1%	4.9%	3.6%	16.8%	32.5%	42.2%
Grŵp oedran (blynyddoedd)										
16 i 29	7.1%	3.3%	9.4%	28.2%	52.0%	3.3%	3.6%	14.6%	32.6%	45.8%
30 i 49	2.2%	2.9%	10.8%	35.9%	48.2%	4.5%	3.6%	13.5%	34.2%	44.3%
50 i 69	4.2%	3.3%	11.3%	30.6%	50.6%	7.4%	4.1%	13.3%	29.2%	46.0%
70 a mwy	2.6%	4.3%	14.2%	35.3%	43.6%	5.2%	6.4%	21.3%	28.4%	38.6%
Cwintel amddifadedd										
(mwyaf difreintiedig) 1	5.2%	4.0%	11.1%	32.1%	47.6%	6.6%	3.3%	20.8%	31.9%	37.4%
2	3.6%	5.4%	11.8%	34.2%	44.9%	6.2%	6.2%	15.3%	31.0%	41.5%
3	3.8%	2.5%	10.4%	33.8%	49.5%	4.3%	4.0%	16.2%	31.3%	44.3%
4	3.2%	3.2%	8.5%	32.1%	53.0%	6.8%	4.1%	10.7%	29.9%	48.5%
(lleiaf difreintiedig) 5	4.2%	1.8%	14.8%	30.4%	48.9%	2.9%	3.7%	13.4%	31.9%	48.0%
Lleoliad										
Trefol	4.3%	3.5%	11.6%	31.9%	48.7%	4.6%	4.2%	16.6%	31.1%	43.4%
Gwledig	3.0%	2.9%	10.7%	34.0%	49.4%	6.9%	4.4%	11.5%	31.4%	45.8%
Addysg (cymhwysr uchaf)										
Dim	2.4%	3.0%	18.7%	34.9%	41.0%	6.0%	4.8%	30.1%	27.7%	31.3%
Uwchradd	7.4%	4.4%	11.6%	30.4%	46.3%	6.5%	4.4%	19.2%	28.6%	41.3%
Coleg neu 6 ^{ed} dosbarth	3.0%	1.8%	9.3%	38.4%	47.6%	5.3%	3.5%	12.6%	36.5%	42.0%
Addysg uwch	2.6%	3.6%	10.2%	30.5%	53.1%	4.1%	4.6%	12.2%	30.8%	48.3%
Cymwysterau proffesiynol	3.9%	3.9%	14.0%	29.2%	48.9%	6.8%	4.0%	10.2%	28.4%	50.6%

Tabl 7 parhad: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r opsiynau polisi canlynol? Cyfran wedi'i phwysoli yn darparu pob ymateb. Efallai na fydd y canrannau yn adio i 100% oherwydd talgrynnu.

	Gostwng trethi i gwmnïau sy'n gwarchod yr amgylchedd					Mynediad rhatach / mwy o fynediad i ynni o ynni niwclear				
	Cyfran ym mhob categori					Cyfran ym mhob categori				
	Anghytu no'n gryf	Tueddu i anghytu no	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i gytuno	Cytuno'n gryf	Anghytu no'n gryf	Tueddu i anghytu no	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i gytuno	Cytuno'n gryf
Cyfanswm	3.2%	7.0%	14.1%	35.2%	40.5%	7.6%	8.3%	22.7%	28.0%	33.5%
Rhywedd										
Gwrywaidd	3.5%	8.1%	14.0%	33.8%	40.6%	7.2%	7.9%	18.9%	28.6%	37.4%
Benywaidd	3.0%	6.0%	14.1%	36.6%	40.4%	7.9%	8.7%	26.2%	27.4%	29.8%
Grŵp oedran (blynyddoedd)										
16 i 29	2.5%	6.5%	9.6%	36.5%	44.9%	8.6%	9.0%	22.8%	28.0%	31.6%
30 i 49	3.4%	7.4%	17.0%	36.2%	36.0%	5.4%	9.4%	22.7%	29.2%	33.2%
50 i 69	4.0%	5.8%	12.6%	34.7%	42.9%	8.9%	7.4%	21.9%	27.2%	34.7%
70 a mwy	2.4%	9.0%	17.0%	33.3%	38.3%	7.8%	7.3%	23.6%	27.4%	34.0%
Cwintel amddifadedd										
(mwyaf difreintiedig) 1	5.7%	4.7%	15.6%	33.4%	40.5%	6.6%	10.0%	25.6%	27.3%	30.6%
2	3.0%	8.6%	15.7%	36.8%	35.9%	10.2%	9.5%	18.9%	27.0%	34.3%
3	4.2%	8.9%	14.2%	33.8%	38.9%	8.7%	7.9%	23.4%	27.6%	32.5%
4	1.9%	5.1%	11.1%	38.8%	43.0%	5.6%	5.8%	22.5%	29.6%	36.5%
(lleiaf difreintiedig) 5	1.5%	7.5%	13.8%	33.4%	43.7%	6.8%	8.1%	23.1%	28.4%	33.6%
Lleoliad										
Trefol	2.9%	6.9%	14.6%	33.9%	41.7%	7.0%	8.2%	23.9%	27.7%	33.2%
Gwledig	3.9%	7.3%	12.7%	38.7%	37.5%	9.0%	8.3%	19.6%	28.8%	34.2%
Addysg (cymhwysr uchaf)										
Dim	3.0%	6.7%	18.2%	31.5%	40.6%	6.6%	5.4%	33.1%	27.7%	27.1%
Uwchradd	4.2%	6.9%	17.8%	31.9%	39.3%	5.8%	7.9%	21.1%	24.1%	41.1%
Coleg neu 6 ^{ed} dosbarth	3.0%	9.1%	12.2%	38.8%	37.0%	6.3%	10.2%	24.4%	29.1%	29.9%
Addysg uwch	2.7%	5.7%	13.0%	36.5%	42.2%	9.7%	7.8%	21.7%	30.7%	30.2%
Cymwysterau proffesiynol	3.4%	7.9%	9.6%	35.6%	43.5%	8.5%	8.5%	18.1%	23.7%	41.2%

Tabl 7 parhad: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r opsiynau polisi canlynol? *Cyfran wedi'i phwysoli yn darparu pob ymateb. Efallai na fydd y canrannau yn adio i 100% oherwydd talgrynnu.*

		Cynyddu prisiau tanwydd ar gyfer ceir				
		Cyfran ym mhob categori				
		Anghytuno 'n gryf	Tueddu i anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i gytuno	Cytuno'n gryf
Cyfanswm		26.0%	25.3%	22.7%	16.3%	9.7%
Rhywedd						
	Gwrywaidd	27.9%	23.2%	21.7%	16.3%	10.8%
	Benywaidd	24.2%	27.3%	23.6%	16.3%	8.6%
Grŵp oedran (blynyddoedd)						
	16 i 29	25.3%	29.0%	19.4%	17.7%	8.6%
	30 i 49	28.0%	22.8%	25.2%	14.6%	9.4%
	50 i 69	27.4%	25.0%	20.9%	17.3%	9.3%
	70 a mwy	21.5%	25.3%	25.3%	15.8%	12.1%
Cwintel amddifadedd						
	(mwyaf difreintiedig) 1	23.9%	25.1%	26.5%	15.9%	8.5%
	2	27.0%	24.5%	21.6%	13.9%	13.0%
	3	27.4%	24.7%	22.3%	15.5%	10.0%
	4	25.5%	25.9%	21.2%	17.3%	10.1%
	(lleiaf difreintiedig) 5	26.0%	26.2%	22.0%	18.9%	6.8%
Lleoliad						
	Trefol	25.2%	25.9%	23.2%	15.7%	10.1%
	Gwledig	28.0%	23.8%	21.5%	17.8%	8.9%
Addysg (cymhwysr uchaf)						
	Dim	22.2%	23.4%	32.9%	15.0%	6.6%
	Uwchradd	29.3%	24.2%	21.9%	14.3%	10.4%
	Coleg neu 6 ^{ed} dosbarth	22.6%	29.5%	23.4%	15.2%	9.3%
	Addysg uwch	25.4%	24.1%	21.9%	18.9%	9.7%
	Cymwysterau proffesiynol	30.9%	24.2%	18.0%	15.7%	11.2%

10. Cyfeiriadau

1. Intergovernmental Panel on Climate Change. Climate change 2021. The physical science basis. Switzerland: IPCC, 2021.
2. Costello A, Abbas M, Allen A et al. Managing the health effects of climate change. The Lancet. 2009, 373:1693-733.
3. Netherwood A. Evidence for the third UK Climate Change Risk Assessment (CCRA3). Summary for Wales. 2021. Ar gael o: [CCRA-Evidence-Report-Wales-Summary-Final.pdf \(ukclimaterisk.org\)](#), cyrchwyd 21/01/24.
4. Edmonds N, Green L. Newid Hinsawdd yng Nghymru: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2023. Ar gael o https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2023/07/PHW-Climate-Change-HIA-Summary-Report-Cymraeg-Final-10_2023.pdf cyrchwyd 21/01/24.
5. Llywodraeth Cymru. Cymru sero net cyllideb garbon 2 (2021 i 2025). 2021. Ar gael o: [Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 \(2021 i 25\)](#), cyrchwyd 21/01/24.
6. Climate Change Committee. Progress report: Reducing emissions in Wales. 2023. Ar gael o: [Progress Report: Reducing emissions in Wales \(theccc.org.uk\)](#), accessed 21/01/24.
7. Wood S, Hughes K, Hill R, Judd N, Bellis, MA. Newid hinsawdd ac iechyd yng Nghymru: Barn y cyhoedd. Wrecsam: Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022. Ar gael: [Newid Hinsawdd ac Iechyd yng Nghymru: Barn y Cyhoedd - Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y](#) (phwwhocc.co.uk), cyrchwyd 21/01/24.



Cyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd
Rhyngwladol,
Canolfan Gydweithredol WHO ar
Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant,
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus
Cymru,
Tŷ Clwydian,
Parc Technoleg Wrecsam,
Wrecsam
LL13 7YP



Uned Gydweithredu Iechyd y
Cyhoedd,
Coleg Meddygaeth ac Iechyd
Prifysgol Bangor,
Parc Technoleg Wrecsam,
Wrecsam
LL13 7YP



phwwhocc.co.uk